**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 419**
**20 Gorffennaf, 2018, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) (Eitem 1-8) |
| | John Davies | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol) |
| | Steve Thomas | (Ymgynghorydd Strategol a Pholisi) (Eitem 5.4) |
| | Llion Iwan | (Pennaeth Dosbarthu Cynnwys) |
| | Rhidian Dafydd | (Rheolwr Rhaglen Waith Yr Egin) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) (Eitem 6.3 & 6.4) |
| | Carys Evans | (Pennaeth Data a Dadansoddi) (Eitem 7 & 8) |
| | Huw Jones | (Uwch Swyddog Ystadegol) (Eitem 7 & 8) |
| | Steve Cowin | (Prif Swyddog Technegol) (Eitem 9) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| **Ymddiheuriadau:** | Guto Harri | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod yn arbennig Owen Derbyshire a Rhodri Williams i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau'r Bwrdd. Nodwyd nad oedd Anita George yn gallu bod yn bresennol.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datgan-iadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 418 a gynhaliwyd ar Fehefin 28ain**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 418 a gynhaliwyd ar Fehefin 28ain.
Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 418**

3.1 **8.1.3 holiadur staff** – cadarnhawyd y byddai canlyniadau'r holiadur ar gael ym mis Medi.

3.2 **8.3 Codiad cyflog cyffredinol**

Nododd EM fod trafodaethau cadarnhaol wedi eu cynnal gyda BECTU.

3.3 **Arwyddo prydles yr Egin**

Cadarnhawyd fod y Drindod wedi sicrhau nifer teilwng o denantiaid ar gyfer yr Egin, a'u bod wedi bodloni'r gofynion cytundebol. Roedd y rhestr tenantiaid yn cynnwys traws doriad o gwmnïau gwahanol ym meysydd digidol, cynhyrchu, is-deitlo, cyhoeddi llyfrau, brand a dylunio. O ganlyniad, nid oedd unrhyw reswm i ddal taliad rhent S4C yn ôl.

4. **Pwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu er gwybodaeth.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Pwyllgorau Seneddol**

Mynychodd o Cadeirydd ac OE sesiynau tystiolaeth gyda Phwyllgor Materion Cymreig San Steffan a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad.

5.2 **Cyfarfodydd gydag Ofcom**

Adroddwyd fod dau gyfarfod cadarnhaol wedi'u cynnal gyda chynrychiolwyr Ofcom.

Nodwyd fod S4C wedi cytuno i lunio dogfen drafft i'w drafod gydag Ofcom Cymru fel rhan o'r broses o hyrwyddo'r berthynas statudol bresennol rhwng S4C ac Ofcom. Bydd crynodeb o'r berthynas statudol, cyfrifoldebau Ofcom a'r gofynion ar S4C yn cael ei gyhoeddi ar safle we S4C dros yr haf.

5.3 **Adroddiad Blynyddol 2017-18**

Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i chyhoeddi. Roedd y sylw yn y wasg wedi bod yn gadarnhaol.

5.4 **Ymateb i'r Adolygiad o S4C**

Cyflwynodd ST ddrafft o ymateb ac adroddiad cynnydd i'w gyflwyno i DCMS.

Cymeradwywyd y ddogfen i'w chyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan awdurdodi'r Cadeirydd i addasu'r ddogfen pe cyfyd sylwadau pellach gan DCMS.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

6.1 Cyfarfu OE ac AR gyda Ken Skates er mwyn trafod opsiynau ar gyfer datblygu cronfeydd buddsoddi. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol, a gofynnwyd i S4C baratoi amlinelliad o gynlluniau posibl.

6.2 **Diweddariad Cynlluniau Masnachol**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd a thrafodwyd diweddariad ar y cynlluniau masnachol. Nododd OE ei fod yn awyddus i barhau i ddatblygu'r strategaeth fasnachol er mwyn lleihau'r risg i'r gronfa yn y dyfodol ac er mwyn sicrhau fod rhesymeg fasnachol pob buddsoddiad a'u trefniadau llywodraethiant yn glir.]

6.3 **Diweddariad ar y Strategaeth Hyfforddiant**

Cyflwynodd CHR ddiweddariad ar y strategaeth hyfforddiant. Adroddwyd nad oedd llawer o wybodaeth wedi ei gyflwyno gan TAC o ran sut y bydd y cyrsiau yn cael eu gweithredu. Gobeithir y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei gyflwyno maes o law.

Roedd ITV ac S4C wedi datblygu cynllun hyfforddi newyddiadurwyr ar y cyd, a gobeithir cyhoeddi'r cynllun ym mis Awst. Bwriedir hefyd i greu cyswllt gydag Ysgoloriaeth ôl-radd T. Glynne Davies er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddeiliaid yr ysgoloriaeth dderbyn profiad gwaith gyda'r BBC ac ITV.

Nodwyd fod ystyriaeth yn cael ei roi i ystod o opsiynau ar gyfer sicrhau hyfforddiant o fewn cwmnïau cynhyrchu a chynlluniau prentisiaethau o fewn S4C a'r sector.

Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr.

6.4 **Diweddariad ar y Strategaeth Amrywiaeth**

Cyflwynwyd diweddariad ar weithredu cynllun amrywiaeth S4C.

Nododd y Bwrdd bwysigrwydd sicrhau fod cynlluniau'n cael eu datblygu er mwyn gweithredu ymrwymiad S4C i amrywiaeth o fewn y sefydliad, o fewn y sector ac ar sgrin.

7. **Adroddiad Dadansoddi Chwarter 1, 2018-19**

Cyflwynodd CE ac AR Adroddiad Dadansoddi Chwarter 1, 2018-19, a drafodwyd yn wreiddiol gan y pwyllgor cynnwys yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf.

8. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 19.07.18**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd HJ adroddiad llafar o'r Pwyllgor Cynnwys a thrafodwyd rhai o'r prif faterion a godwyd yn y Pwyllgor. Cyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau o'r rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd.]

9. **Diweddariad - Ystâd Llanisien**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd diweddariad am y cynlluniau ar gyfer adeiladau S4C yn Llanisien a thrafodwyd rhai o'r opsiynau gerbron. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ar y ffordd orau ymlaen yn ddibynnol ar waith dichonolrwydd pellach.]

10. **Cofnodion cyfarfod Bwrdd y Bartneriaeth rhwng S4C a BBC Cymru (y "JPB")**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y JPB. Nodwyd fod y cyfarfodydd yn gadarnhaol, ac yn gyfle i drafod a gwyntyllu pynciau pwysig o ran y berthynas rhwng S4C a BBC Cymru.

Nodwyd fod trafodaeth wedi ei gynnal parthed cynlluniau digidol S4C a BBC Cymru, a nodwyd bwriad i geisio trafodaethau pellach gyda Cymru Fyw er mwyn sicrhau fod modd cydweithio ar ddatblygu cynlluniau, ac osgoi cystadlu a dyblygu gwasanaethau.

**[Crynodeb:** Esboniwyd natur a statws y cofnodion a'r gofynion o dan Gytundeb Gweithredu 2013 a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd 2017.]

11. **Adroddiad Ariannol Chwarter 1, 2018-2019**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd SW Adroddiad Ariannol chwarter 1, 2018-19.]

Nodwyd bod yr arolygiad TAW diwedd blwyddyn yn parhau, ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd pan fydd HMRC wedi cwblhau eu gwaith.

12. **Adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgorau**

Nodwyd fod adroddiad o waith y Bwrdd Masnachol wedi ei gyflwyno uchod o dan adroddiad y Prif Weithredwr.

Nodwyd fod gwaith cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynnwys wedi ei drafod o dan yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi uchod.

Holwyd am ddiweddariad parthed strategaeth gerddoriaeth S4C, ac esboniodd AR fod y broses o geisio cydweithrediad ymysg cymdeithasau casglu, artistiaid a labeli ar gyfer defnydd o gerddoriaeth ar-lein yn anodd.

Nodwyd fod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth wedi ei ohirio, gan nad oedd adroddiadau pellach gan yr Archwilwyr Mewnol i'w hystyried.

Esboniwyd y byddai rhaglen waith ddiwygiedig yn cael ei datblygu ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor yn yr hydref.

13. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

Nododd OE fod y gwaith o ystyried sut i fesur llwyddiant y gwasanaeth yn parhau, ac y byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno yn yr hydref.

14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

15. **Rhaglen Waith 2018/19**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth.

**Aelodaeth Pwyllgorau**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr argymhelliad isod ar gyfer aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd.

| Hyd at Hydref 2018 | Tachwedd 1af ymlaen |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth** | |
| Hugh Hesketh Evans (Cad) | Anita George (Cad) |
| Elan Closs | Guto Harri |
| Guto Harri | Rhodri Williams |
| Rhodri Williams | |
| Anita George | |
| **Pwyllgor Cynnwys** | |
| Huw Jones (Cad) | Huw Jones (Cad) |
| John Davies | Siân Lewis |
| Siân Lewis | Guto Harri |
| Guto Harri | Rhodri Williams |
| Rhodri Williams | |

| **Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth** | |
|---|---|
| Rhodri Williams (Cad) | Rhodri Williams (Cad) |
| Hugh Hesketh Evans | Owen Derbyshire |
| Elan Closs | Anita George |
| Owen Derbyshire | |
| Anita George | |
| **Pwyllgor Craffu ac Adleoli** | |
| John Davies (Cad) | Rhodri Williams (Cad) |
| Hugh Hesketh Evans | Owen Derbyshire |
| **Y Bwrdd Masnachol**<br>(yn amodol ar y strategaeth a threfniadau newydd) | |
| Hugh Hesketh Evans | Owen Derbyshire |
| Owen Derbyshire | Siân Lewis |
| Siân Lewis | |

**Cymeradwywyd yr argymhelliad.**

16. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.